

Polisi diogelu data

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn darparu gwybodaeth am y ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, y mae'n rhaid i Chwarae Cymru ("ni", "ein") gydymffurfio â hi.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl aelodau o staff, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a phobl eraill sy'n gwneud gwaith i ni.

Mae'r polisi hwn yn cynnig trosolwg cyffredinol o'r gofynion cyfreithiol. Mae'n amlinellu yr hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl gennych yn gyffredinol wrth ymdrin â gwybodaeth bersonol, beth bynnag yw fformat storio'r wybodaeth honno. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:

- Ymgeiswyr a gweithwyr a chyflogeion presennol neu flaenorol
- Ymgeiswyr a gwirfoddolwyr presennol neu flaenorol
- Ymgeiswyr ac ymddiriedolwyr presennol neu flaenorol
- Buddiolwyr / cleientiaid / defnyddwyr ein gwasanaethau
- Defnyddwyr ein sianeli ar y cyfryngau digidol ac ar-lein
- Arianwyr, noddwyr a chefnogwyr presennol, blaenorol neu bosibl, gan gynnwys unigolion a chynrychiolwyr mudiadau

- Pobl rydyn ni'n ymwneud â nhw mewn perthynas â'n gweithgarwch ymgyrchu
- Cynrychiolwyr mudiadau y mae gennym bartneriaethau â nhw, neu yr ydym yn cydweithio â nhw
- Cynrychiolwyr ein cyflenwyr

Rhaid i chi ddarllen y Polisi hwn, ei ddeall a chydymffurfio ag ef wrth ymdrin â data personol ar ein rhan, a mynd i unrhyw hyfforddiant gorfodol ar ei ofynion. Gellir ategu canllawiau pendant sy'n berthnasol i'ch swyddogaeth at y polisi.

Rhaid i chi gydymffurfio â'r Polisi hwn. Fe allai unrhyw achos o dorri'r Polisi hwn arwain at gamau disgyblu.

Diffiniadau

Defnyddir y diffiniadau canlynol yn y polisi hwn:

- **Rheolwr** – ystyr Rheolwr yw'r unigolyn neu'r mudiad sy'n pennu pryd, pam a sut i brosesu Data Personol. Ni yw Rheolwr Data yr holl Ddata Personol a ddefnyddir yn ein mudiad ni at ein dibenion ein hunain.

- **Gwrthrych y Data** – ystyr Gwrthrych y Data yw unigolyn byw sydd wedi'i adnabod neu y gellid ei adnabod, yr ydym yn dal Data Personol amdano.
- **Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA)** – ystyr Asesiad Effaith Diogelu Data yw offeryn ac asesiad a ddefnyddir i nodi a lleihau risgiau gweithgarwch prosesu data. Gellir cynnal Asesiad o'r fath fel rhan o waith Preifatrwydd drwy Ddylunio, a dylid ei gynnal ar gyfer pob rhaglen fawr ar newid busnes neu newid systemau sy'n ymwneud â Phrosesu Data Personol.

Arweinydd Diogelu data (DPL) – dyma'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb am gydymffurfio â rheoliadau diogelu data yn ein mudiad. Dyma'r person sy'n ddeiliad swydd Rheolwr Gweithrediadau Chwarae Cymru.

- **Data Personol** – ystyr Data Personol yw unrhyw wybodaeth sy'n datgelu pwy yw Gwrthrych y Data neu wybodaeth yn ymwneud â Gwrthrych y Data y gallwn ei defnyddio i adnabod Gwrthrych y Data (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol), boed hynny ar sail y data hwnnw yn unig neu drwy ei gyfuno â dynodwyr eraill sydd gennym neu y gallem yn rhesymol gael gafael arnynt. Mae Data Personol yn cynnwys Data Personol Categori Arbennig a Data Personol sydd wedi'i Ffugenwi, ond mae'n eithrio data dienw a data lle mae hunaniaeth unigolyn wedi'i thynnu ohono yn barhaol. Gall data personol fod yn ffeithiol (er enghraifft enw, cyfeiriad e-bost, lleoliad neu ddyddiad geni) neu'n farn am ymddygiad neu weithredoedd yr unigolyn hwnnw.
- **Mynediad Diawdurdod at Ddata Personol** – ystyr Mynediad Diawdurdod at Ddata Personol yw unrhyw weithred neu anweithred sy'n peryglu diogelwch, cyfrinachedd, uniondeb, neu argaeledd Data Personol neu'r amddiffynfeydd corfforol, technegol, gweinyddol neu drefniadol y byddwn ni neu ein darparwyr trydydd parti yn eu rhoi ar waith i'w ddiogelu. Os caiff data ei golli, neu ei gyrchu, ei ddatgelu neu ei gaffael heb awdurdod, bydd hynny'n golygu Mynediad Diawdurdod at Ddata Personol.
- **Preifatrwydd drwy Ddylunio** – ystyr Preifatrwydd drwy Ddylunio yw gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol mewn ffordd effeithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth diogelu data.
- **Hysbysiad Preifatrwydd** – ystyr Hysbysiad Preifatrwydd yw hysbysiad yn amlinellu gwybodaeth y dylid ei darparu i Wrthrychau'r Data pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanynt.
- **Prosesu neu Broses** – ystyr Prosesu neu Broses yw unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â defnyddio Data Personol. Mae'n cynnwys cael gafael ar, recordio neu ddal y data, neu gynnal unrhyw weithrediad neu gyfres o weithrediadau ar y data gan gynnwys ei drefnu, ei ddiwygio, ei adalw, ei ddefnyddio, ei ddatgelu, ei ddileu neu ei ddinistrio. Mae prosesu hefyd yn cynnwys trosglwyddo neu drawsyrro Data Personol i drydydd partiön.

- **Proseswyr** – yw unrhyw drydydd partion rydyn ni'n eu defnyddio i Brosesu Data Personol ar ein rhan.
- **Ffugenwi** – ystyr Ffugenwi yw disodli gwybodaeth sy'n galluogi adnabod unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a rhoi un neu fwy ddynodwyr artiffisial neu ffugenwau yn lle'r wybodaeth honno fel nad oes modd adnabod y person mae'r data'n berthnasol iddo heb ddefnyddio gwybodaeth arall y dylid ei chadw'n ddiogel ar wahân.
- **Data Personal Categori Arbennig** – ystyr hyn yw gwybodaeth sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, cred grefyddol neu gred debyg, aelodaeth o undeb llafur, cyflyrau iechyd meddwl neu iechyd corfforol, bywyd rhywiol, cyfeiriadedd rhywiol, data genynnol neu fiometrigrig, a gwybodaeth yn ymwneud â throseddau ac euogfarnau.

Egwyddorion diogelu data

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i Ddata Personol:

- gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw
- gael ei gasglu at ddibenion penodol, amlwg a theg
- fod yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran dibenion ei Brosesu
- fod yn gywir a, lle bo angen, fod wedi'i ddiweddarau
- beidio cael ei gadw mewn ffurf sy'n caniatáu i bobl adnabod Gwrthrychau'r Data
- beidio cael ei gadw am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol ar gyfer dibenion prosesu'r data
- gael ei brosesu mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn ddiogel, gan ddefnyddio mesurau trefniadol a thechnegol er mwyn diogelu yn erbyn prosesu anghyfreithlon neu heb awdurdod ac yn erbyn ei ddinistrio, ei ddifrodi neu ei gollu'n ddamweiniol

Yn ogystal, ni chaniateir trosglwyddo data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd heb fod amddiffynfeydd priodol ar waith.

Mae'n ofynnol i ni alluogi Gwrthrychau'r Data i arfer hawliau penodol o ran eu Data Personol.

Rhaid i ni gydymffurfio hefyd â gofynion cyfreithiol penodol pan fydd gan gyflenwyr sy'n cyflawni gwasanaethau ar ein rhan fynediad at Ddata Personol a phan fyddwn yn gweithio gyda mudiadau a bod angen i ni rannu Data Personol.

Rydyn ni'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gofynion o dan y gyfraith, a rhaid i ni allu dangos ein bod yn cydymffurfio.

Cyfreithlondeb a thegwch

Rhaid prosesu data personol yn gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw yng nghydestun Gwrthrych y Data.

Y seiliau cyfreithlon sydd ar gael wrth brosesu data personol nad yw mewn categori arbennig yw:

- bod Gwrthrych y Data wedi rhoi **cydsyniad** i brosesu eu data personol at un neu fwy o ddibenion penodol
- bod y prosesu yn angenrheidiol er mwyn cyflawni **contract** rhyngon ni a Gwrthrych y Data neu er mwyn cymryd camau ar gais Gwrthrych y Data cyn ymrwymo i gontract
- bod y prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â **rhwymedigaeth gyfreithiol** sydd arnom
- bod y prosesu yn angenrheidiol er mwyn diogelu **budd hanfodol** Gwrthrych y Data neu fod dynol arall
- bod y prosesu yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er **budd y cyhoedd**
- bod y prosesu yn angenrheidiol at ddibenion **buddion teg** rydym yn anelu atynt neu y mae trydydd parti yn anelu ato, heblaw lle bo buddion neu hawliau a rhyddid sylfaenol Gwrthrych y Data yn drech na'r buddion hynny ac yn gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig os mai plentyn yw Gwrthrych y Data.

Mae amrywiaeth o ofynion cyfreithiol ychwanegol yn berthnasol wrth brosesu Data Personol Categori Arbennig. Gweler yr adran diffiniadau i weld y mathau o wybodaeth y mae hyn yn eu cynnwys. Os, yn eich rôl, mae angen i chi brosesu Data Personol Categori Arbennig, byddwch yn cael arweiniad ychwanegol ar hyn.

Tryloywder

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth fanwl a phenodol am ein defnydd o Ddata Personol i Wrthrychau'r Data. Rhaid darparu gwybodaeth o'r fath drwy Hysbysiadau Preifatrwydd priodol y mae'n rhaid iddynt fod yn gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hygyrch, ac mewn iaith eglur a syml fel bod modd i Wrthrych y Data eu deall yn hawdd.

Pryd bynnag y byddwn yn casglu Data Personol yn uniongyrchol gan Wrthrychau'r Data, rhaid i ni roi gwybodaeth i Wrthrych y Data gan gynnwys pwy ydyn ni a sut a pham y byddwn yn Prosesu, yn datgelu, yn diogelu ac yn cadw eu Data Personol. Gwneir hyn drwy Hysbysiad Preifatrwydd y mae'n rhaid ei gyflwyno pan fydd Gwrthrych y Data yn darparu'r Data Personol am y tro cyntaf.

Pan gaiff Data Personol ei gasglu'n anuniongyrchol (er enghraifft, gan drydydd parti neu o ffynhonnell sydd ar gael i'r cyhoedd), rhaid i ni ddarparu gwybodaeth yr Hysbysiad Preifatrwydd i Wrthrych y Data cyn gynted ag y bo modd ar ôl casglu/cael y data. Rhaid i ni wirio hefyd bod y Data Personol wedi'i gasglu gan y trydydd parti yn unol â'r gyfraith ac ar sail gyfreithlon sy'n ystyried y ffaith bod bwriad i ni Brosesu'r Data Personol hwnnw.

Cyfyngiadau dibenion

Dim ond at ddibenion penodol, amlwg a theg y caniateir casglu Data Personol. Ni chaniateir ei Brosesu ymhellach mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.

Ni allwch ddefnyddio Data Personol at ddibenion newydd, gwahanol neu anghydnaws a'r dibenion a ddatgelwyd pan gafwyd y wybodaeth i ddechrau, oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i Wrthrych y Data am y dibenion newydd a bod sail gyfreithlon dros wneud hynny.

Lleihau data

Rhaid i Ddata Personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran dibenion y Prosesu.

Dim ond Data Personol sydd ei angen arnoch ar gyfer eich dyletswyddau y cewch ei gasglu: ni ddylech gasglu data gormodol. Dylech sicrhau bod unrhyw Ddata Personol sy'n cael ei gasglu yn ddigonol ac yn berthnasol ar gyfer y dibenion a fwriadwyd.

Cywirdeb

Rhaid i Ddata Personol fod yn gywir, a lle bo angen, rhaid ei ddiweddarau. Rhaid ei gywiro neu ei ddileu yn ddi-oed pan fo'n anghywir.

Dylech sicrhau bod y Data Personol rydym yn ei ddefnyddio a'i ddal yn gywir, yn gyflawn, wedi'i ddiweddarau ac yn berthnasol i'r dibenion rydym wedi'i gasglu ar ei gyfer. Dylech wirio cywirdeb unrhyw Ddata Personol adeg ei gasglu ac ar gyfnodau rheolaidd wedi hynny. Dylech gymryd pob cam rhesymol i ddiwygio Data Personol anghywir neu sydd wedi dyddio.

Dargadw

Ni ddylid cadw Data Personol ar ffurf y gellir adnabod pobl yn hirach nag sy'n angenrheidiol at ddibenion prosesu'r data. Byddwn yn cynnal polisïau a gweithdrefnau dargadw er mwyn sicrhau bod Data Personol yn cael ei ddileu'n ddiogel yn unol â'r gofyniad hwn.

Diogelwch

Rhaid sicrhau Data Personol drwy fesurau trefniadol a thechnegol priodol yn erbyn prosesu anghyfreithlon neu heb awdurdod, ac yn erbyn ei ddinistrio, ei ddifrodi neu ei golli'n ddamweiniol.

- Rydych yn gyfrifol am ddiogelu'r Data Personol rydyn ni'n ei ddal.
- Dim ond pan fo gofyn i chi Brosesu Data Personol fel rhan o'ch swydd y cewch wneud hynny. Ni allwch Brosesu Data Personol am unrhyw reswm nad yw'n ymwneud â'ch swydd.
- Rhaid i chi sicrhau eich bod yn dilyn pob canllaw a roddir i chi sydd â'r nod o'ch diogelu yn erbyn Prosesu Data Personol yn anghyfreithlon neu heb awdurdod ac yn erbyn difrodi Data Personol neu ei golli'n ddamweiniol.
- Rhaid i chi fod yn arbennig o ofalus o ran diogelu Data Personol Categori Arbennig rhag cael ei golli, neu rhag caniatáu mynediad, defnydd neu ddatgelu data o'r fath.

Adrodd ynghylch mynediad diawdurdod at ddata

Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Data roi gwybod am unrhyw Fynediad Diawdurdod at Ddata i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ac mewn rhai achosion, i Wrthrych y Data.

Os gwyddoch neu os amheuwch fod Mynediad Diawdurdod at Ddata Personol wedi digwydd, peidiwch â cheisio ymchwilio i'r mater eich hunan. Dylech gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data ar unwaith. Dylech sicrhau bod yr holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r Mynediad Diawdurdod at Ddata Personol posibl yn cael ei gadw a rhoi sicrwydd i'r Arweinydd Diogelu Data fel sydd angen.

Cyfngiadau trosglwyddo

Mae'r ddeddf yn cyfyngu ar drosglwyddo data i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) pan nad oes ganddynt ddeddfau diogelu data digonol. Os ydych angen anfon Data Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, dylech gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data i gael cyngor.

Hawliau gwrthrychau data

Mae gan Wrthrychau Data hawliau mewn perthynas â'r ffordd rydyn ni'n ymdrin â'u Data Personol. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau:

- lle bo'r Prosesu yn digwydd yn sgil cydsyniad fel sail gyfreithlon, i dynnu eu Cydsyniad i Brosesu yn ôl unrhyw bryd
- i gael gwybodaeth benodol am ein gweithgareddau Prosesu
- i ofyn am fynediad i'w Data Personol nhw sydd gennym
- i'n hatal ni rhag defnyddio eu Data Personol at ddibenion marchnata uniongyrchol
- i ofyn i ni ddileu Data Personol os nad yw'n angenrheidiol bellach o ran y dibenion y cafodd ei gasglu neu ei Brosesu ar ei gyfer neu i gywiro data anghywir neu i sicrhau bod data anghyflawn yn cael ei droi'n gyflawn
- i gyfyngu ar Brosesu mewn amgylchiadau penodol
- i herio Prosesu sydd wedi'i gyfiawnhau ar sail ein buddion teg ni neu er budd y cyhoedd
- i gael gwybod am Fynediad Diawdurdod at Ddata Personol sy'n debygol o arwain at risg uchel i'w hawliau a'u rhyddid; ac
- mewn rhai amgylchiadau, i gael eu Data Personol neu i gael gofyn am ei drosglwyddo i drydydd parti mewn fformat strwythuredig, cyffredin y gall peiriant ei ddarllen.

Rhaid i chi anfon unrhyw gais gan Wrthrych Data a dderbyniwch ymlaen ar unwaith at yr Arweinydd Diogelu Data.

Rhannu data

Ni chewch drosglwyddo Data Personol i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti oni bai eu bod yn cytuno i gydymffurfio â'n polisïau a'n gweithdrefnau ac yn cytuno i roi mesurau diogelwch digonol ar waith, fel y gofynnir iddynt. Rhaid i ni fod â contract ysgrifenedig ar waith gydag unrhyw ddarparwyr gwasanaeth o'r fath yr ydym yn eu defnyddio. Rhaid i'r contract hwn gynnwys gwybodaeth benodol yn unol â gofynion GDPR a dylech gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data ynglŷn â hyn.

Yn ogystal, er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, mae'n arfer da cytuno ar drefniadau rhannu data yn ysgrifenedig gydag unrhyw bartneriaid rydym yn gweithio gyda nhw pan fo'r berthynas yn cynnwys rhannu Data Personol. Mae'n hanfodol bod gennych sail gyfreithlon eglur ar gyfer rhannu Data Personol gyda phartneriaid o'r fath neu unrhyw drydydd partion a'ch bod yn trawsyrru'r Data Personol yn ddiogel.

Atebolrwydd ac arddangos cydymffurfiaeth

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw cofnodion llawn a chywir o'n holl weithgareddau Prosesu. Dylech sicrhau bod unrhyw Brosesu Data Personol rydych chi'n ei wneud yn cael ei gynnwys yn y cofnodion drwy wirio gyda'r DPL.

Mae'n ofynnol i ni sicrhau bod pawb sy'n gweithio i ni wedi gwneud digon o hyfforddiant i'w galluogi i gydymffurfio â deddfau preifatrwydd data.

Mae'n ofynnol i ni weithredu mesurau Preifatrwydd drwy Ddylunio wrth Brosesu Data Personol drwy weithredu mesurau technegol a threfniadol priodol (fel Ffugenwi) mewn modd effeithiol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion preifatrwydd data.

Rhaid i ni hefyd gynnal Asesiadau Effaith Diogelu Data mewn perthynas â Phrosesu risg uchel. Os credwch fod y Prosesu rydych yn ei gyflawni yn brosesu risg uchel, siaradwch gyda'r DPL.

Rhaid i ni hefyd brofi ein systemau a'n prosesau yn rheolaidd er mwyn asesu cydymffurfiaeth. Rhaid i chi adolygu'r holl systemau a phrosesau sydd o dan eich rheolaeth yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Polisi hwn a gwirio bod yr holl adnoddau a rheolaethau llywodraethiant ar waith er mwyn sicrhau bod Data Personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn cael ei ddiogelu. Dylech ddarparu unrhyw wybodaeth DPL fel sydd angen.

Fersiwn polisi

Adolygyd y polisi hwn ym mis Tachwedd 2022.